**Edwina Hart MBE CStJ AC / AM**
**Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth**
**Minister for Economy, Science and Transport**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref p-04-559
Ein cyf/Our ref EH/03488/15

William Powell AC
Cadeirydd y Pwyllgor Enwebiadau

committeebusiness@Wales.gsi.gov.uk

25 Awst 2015

Annwyl William,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 6 Awst ynghylch Ardrethi Domestig a Llety Hunanddarpar.

Mae'r ddeddfwriaeth ynghylch llety hunanddarpar y mae'r enwebydd Mr Chris Harris yn gofyn amdani wrthi'n cael ei hadolygu a disgwylir iddi ddod i rym ar 1 Ebrill 2016. Bydd yn effeithio ar fusnesau hunanddarpar gweithredol. Bydd y ddeddfwriaeth yn effeithio ar eiddo hunanddarpar sy'n gweithredu fel busnes masnachol ac sy'n bodloni'r amodau isod:

- bydd yr eiddo ar gael ar gyfer ei osod fel llety hunanddarparu masnachol am gyfnodau byrion dros gyfnod o 140 diwrnod neu fwy yn y cyfnod dilynol o 12 mis.
- yn y 12 mis cyn yr asesiad, bu'r eiddo ar gael ar gyfer ei osod fel llety hunanddarpar masnachol am gyfnodau byrion dros gyfnod o 140 diwrnod neu fwy.
- cafodd y llety ei osod yn fasnachol am gyfnodau byr am o leiaf 70 diwrnod yn y cyfnod hwnnw.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0300 0603300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0300 0604400
Correspondence.edwina.Hart@Wales.gsi.gov.uk

*Wedi'i argraffu ar bapur wedi'i ailgylchu (100%)*
*Printed on 100% recycled paper*

O 1 Ebrill 2016 yng Nghymru, bydd yn dal gofyn bodloni'r amodau uchod ond fe fydd darpariaeth newydd:

- caiff busnesau sydd â sawl eiddo hunanddarpar yn yr un lle neu'n agos iawn at ei gilydd ddewis cyfrif cyfartaledd y dyddiau y mae eu heiddo wedi bod ar osod er mwyn bodloni'r amod 70 diwrnod, cyn belled â bod yr eiddo'n cael eu rhoi ar osod gan yr un busnes neu fusnesau cysylltiedig.

Nid yw'r ddeddfwriaeth gyfredol yn rhoi'r pwerau i ganiatáu ôl-gymhwyso'r rheoliadau felly bydd yr amodau newydd yn gymwys o 1 Ebrill 2016 yn unig.

Cofiwch fod ymgynghoriad sy'n casglu safbwyntiau ynghylch y Gorchymyn arfaethedig a'r Canllaw cysylltiedig i Drethdalwyr wrthi'n cael ei gynnal am 6 wythnos, gan gau ar 7 Medi 2015. Croesewir barn pawb.

Edwina Hart